Reviewed: January 2014

PEMBROKESHIRE BIODIVERSITY PARTNERSHIP

PARTNERIAETH BIOAMRWYIAETH SIR BENFRO

# Cynlluniau Gweithredu Cynefin: Coetir

## Cyflwyniad

### Sgôp

Mae'r Cynllun Gweithredu Cynefin (CGC) cyfun hwn yn cynnwys pob cynefin a geir yn y gymhlethfa o goetiroedd lled-naturiol:

- Coetir Collddail Cymysg yr Iseldir
- Ynn Cymysg yr Ucheldir
- Coed Derw'r Ucheldir
- Coed Hynafol
- Porfa Goed a Pharcdir

Mae'r rhyngwyneb rhwng cynefinoedd coetir a chynefinoedd eraill fel glaswelltir neu ardaloedd dyfrol yn bwysig i lawer rhywogaeth a gall fod yn arbennig o amrywiol. Caiff y cynefinoedd ymyl coetir eu hystyried yn rhan o'r cynllun hwn.

**SYLWER:** Mae Coetiroedd Gwlybion yn cael sylw yn y CGC Gwlybtiroedd. Caiff Coetiroedd Gwlybion sylw yn CGC Tir Amaeth. Mae rhodfeydd trafnidiaeth a choed strydoedd yn cael eu cynnwys yn y CGC Tir Llwyd/Trefol.

Nid yw rheolaeth lleoedd dynodedig er mwyn cynnal a/neu wella eu nodweddion yn rhan o sgôp y cynllun hwn. Mae gan leoliadau o'r fath eu cynlluniau rheoli eu hunain ac mae'r hyn a wneir yn cael ei adrodd mewn man arall (e.e. cronfeydd data arbennig). Mae'r cynllun hwn yn ceisio canolbwyntio ar leoliadau 'eraill' a'r cysylltedd rhwng lleoliadau er mwyn gwella swyddogaeth ecosystem a chryfder yr ardal i wrthsefyll bygythiadau megis newid hinsawdd. Mae'r dull hwn o drafod cynefinoedd coetiroedd yn Sir Benfro yn amlygu tair ardal blaenoriaeth lle y gallai ymdrech gwarchodaeth fod yn ganolbwynt:

- Cymoedd Gwaun a Nanhyfer (yn cynnwys rhannau o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Coetiroedd Gogledd Sir Benfro).
- Coetiroedd Daugleddau (yn cynnwys safleoedd parcdir hynafol a choetiroedd aberol).

- Llethrau a chymoedd coediog arfordirol (Ardaloedd coediog bychan ac anghysbell).

# Datganiad Cenhadaeth

Cynnal a gwella cyflwr a maint cynefinoedd coetir a'u rhywogaethau cysylltiedig yn Sir Benfro.

# Disgrifiad Cynefinoedd

Mae coetiroedd Sir Benfro yn tueddu i fod wedi eu cyfyngu i dir amaethyddol ymylol, sy'n adlewyrchu'r patrwm o amaethu dwys yn y Sir. Mae coetiroedd llydanddail lled-naturiol yn goetir derw yn bennaf ac mae'n gorchuddio tua 4% o'r Sir, gyda rhai o'r enghreifftiau gorau i'w cael yng nghymoedd Gwaun a Nanhyfer ac ym mhen uchaf Aberdaugleddau. Mae'r rhain yn cynnal cymunedau o gen arbennig o gyfoethog a phoblogaethau o redyn, bryoffytau a ffwng. Mewn mannau sy'n agos i ardaloedd dyfrol gallant ddarparu mannau gorffwys a magu pwysig ar gyfer poblogaethau o bathewod, ystlumod, adar, gloÿnnod byw a chreaduriaid di-asgwrn-cefn eraill. Mae llawer o'r safleoedd yn cynnwys carped o flodau coetir clasurol megis bwtsias y gog, blodau'r gwynt a suran y coed..

Mae'r rhan fwyaf o goetiroedd derw yn Sir Benfro yn iseldir eu cymeriad, ac yn adlewyrchu'r hinsawdd dyner gefnforol. Yn Ne'r Sir, mae pocedi o goetir ynn yn goroesi ar briddoedd sydd â sylfaen gyfoethog yn gorchuddio calchfaen.

Mae porfeydd coed yn brin yn y Sir ac mae yn arbennig o werthfawr ar gyfer cen ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn. Gall coed unigol fod yn 300-400 blwydd oed, er bod coed mor hen â hynny yn brin bellach. Mae maint llawn y cynefin hwn yn Sir Benfro yn debyg o fod yn fwy na'r hyn sy'n wybyddus ar hyn o bryd ac mae casglu data am ei faint a'r bywyd gwyllt cysylltiedig yn hanfodol er mwyn nodi materion a blaenoriaethau ac ar gyfer rheolaeth safleoedd.

Gellir cysylltu coed hynafol gyda chynefinoedd coetir eraill, ond maent i'w gweld yn aml ar wasgar mewn caeau lle maent yn draddodiadol wedi bod yn nodi terfynau.

Mae coetiroedd yn darparu gwasanaethau ecosystem pwysig megis rheoli hinsawdd, lleddfu llifogydd ac fel mangreoedd hamdden a lles i'r boblogaeth ddynol. Maent hefyd yn darparu adnodd economaidd gwerthfawr.

**Reviewed: January 2014**

# Bygythiadau

Gall rheolaeth coetiroedd, gan gynnwys y defnydd o dir o'u hamgylch a rheolaeth nodweddion ffiniau ac ymylon coetiroedd, gael cryn effaith ar eu gwerth bioamrywiaeth. Yn gyffredinol, mae troi cefn ar arferion rheolaeth hanesyddol wedi arwain at brinder oedran ac amrywiaeth strwythurol mewn coetiroedd ac felly at brinder coed meirw sy'n sefyll neu wedi syrthio a allai gynnal amrywiaeth o greaduriaid di-asgwrn-cefn a ffyngau.

Mae bygythiadau i gynefinoedd coetir yn Sir Benfro wedi eu dynodi fel:

- Colli yn arwain at arwahaniad a darniad y cynefin sy'n weddill.
- Rheolaeth amhriodol, neu ddiffyg rheolaeth – cyfoes a hanesyddol.
- Newid hinsawdd.
- Rhywogaethau ymledol anfrodorol.
- Clefydau, megis *Phytophthora* a *Chalara fraxinea* (ynn yn gwywo).
- Llygredd – e.e. dyddodiad llwch o bellter, $NO_x$ & $SO_x$ o ffynonellau gwasgaredig a phenodol (yn cynnwys amaethyddiaeth).
- Datblygiad – yn cynnwys chwarela a gweithgareddau cysylltiedig megis llunio traciau mynediad ac isadeiledd cysylltiedig.
- Galw cynyddol am goed tân yn fygythiad lle mae casglu ad hoc o goed marw sydd wedi cwympo neu gwympo coed heb ystyried rheolaeth tymor hir y safle yn digwydd. Fodd bynnag, gall y galw am goed tân fod hefyd yn gyfle i ysgogi ail gyflwyno arferion rheoli traddodiadol megis coedlannu.
- Galw cynyddol am fynediad ar gyfer gweithgareddau hamdden a all arwain at ragor o aflonyddu.

# Cynlluniau a Pholisïau Cysylltiedig

Dyma gynlluniau/polisïau eraill sy'n effeithio'n uniongyrchol ar reolaeth cynefinoedd coetiroedd yn Sir Benfro:

- Strategaeth Coetiroedd i Gymru: Gwefan ar gael yn: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/forestry/woodlandsforwales/?lang=en
- Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Ar gael yn: http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?PID=196
- Ardal Gadwraeth Arbennig Coetiroedd Gogledd Sir Benfro. Gwefan ar gael yn: http://www.ccw.gov.uk/landscape--wildlife/protecting-our-landscape/special-sites-project/north-to-rhos-sac-list/north-pembs-woodlands-sac.aspx
- SODdGA Cynlluniau Rheolaeth. Cyfeirier at swyddfeydd lleol Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Cynllun Gweithredu Cynefinoedd Trefol: http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36376
- Cynllun Gweithredu Cynefinoedd Tir Fferm: http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36376

**Reviewed: January 2014**

- Cynllun Gweithredu Cynefinoedd Gwlyptiroedd http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36376
- Cynllun Gweithredu Rhywogaethau Anfrodorol (yn cael ei ddatblygu pan gyhoeddir yr adolygiad hwn). Wedi ei gwblhau bydd ar gael ar y dudalen we ganlynol). http://ukbars.defra.gov.uk/project/show/36376
- Clirio Rhododendron: argymhellion ar gyfer lleihau'r effaith ar ddyfrgwn (Lyles, 2006). Adroddiad Cyngor Cefngwlad Cymru; Cysylltwch â swyddfeydd lleol Cyfoeth Naturiol Cymru am fanylion.

**Reviewed: January 2014**

# Rhywogaethau Cysylltiedig â'r Cynefinoedd hyn.

| **Rhywogaethau Blaenoriaethol Cysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu Cynefin Dosbarthedig hwn** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Enw'r Rhywogaeth | Enw Cyffredin | UK CGB Spp | Rhestr S42 Cymraeg Spp | Pwysig yn lleol Spp |
| **Mamaliaid** | | | | |
| *Barbastella barbastellus* | Ystlum Barbastél | ✓ | ✓ | |
| *Lutra lutra* | Dyfrgi | ✓ | ✓ | |
| *Muscardinus avellanarius* | Pathew | ✓ | ✓ | |
| *Mustela putorius* | Ffwlbart | ✓ | ✓ | |
| *Myotis bechsteinii* | Ystlum Bechstein | ✓ | ✓ | |
| *Nyctalus noctula* | Ystlum Hwyrol | ✓ | ✓ | |
| *Pipistrellus nathusii* | Corystlum Nathusius | | | ✓ |
| *Pipistrellus pipistrellus* | Corystlum  Cyffredin | | ✓ | |
| *Pipistrellus pygmaeus* | Corystlum Soprano | ✓ | ✓ | |
| *Plecotus auritus* | Ystlum Clustiog Brown | ✓ | ✓ | |
| *Rhinolophus ferrumequinum* | Ystlum Trwyn Pedol Mwyaf | ✓ | ✓ | |
| *Rhinolophus hipposideros* | Ystlum Trwyn Pedol Lleiaf | ✓ | ✓ | |
| **Adar** | | | | |
| *Anthus trivialis* | Corhedydd y Coed | ✓ | ✓ | |
| *Carduelis cabaret* | Llinos Bengoch Leiaf | ✓ | ✓ | |
| *Cuculus canorus* | Y Gwcw | ✓ | ✓ | |
| *Dendrocopus minor subsp. comminutus* | Cnocell Fraith Leiaf | ✓ | ✓ | |
| *Falco tinnunculus* | Cudyll Coch | | ✓ | |
| *Ficedula hypoleuca* | Gwybedog Brith | | ✓ | |
| *Locustella naevia* | Telor y Gwair Cyffredin | ✓ | ✓ | |
| *Milvus milvus* | Barcud | | | ✓ |
| *Muscicapa striata* | Gwybedog Mannog | ✓ | ✓ | |
| *Parus montanus subsp. kleinschimdti* | Titw'r Helyg | ✓ | ✓ | |
| *Parus palustris subsp. palustris/dreseri* | Titw'r Gors | ✓ | ✓ | |
| *Phoenicurus phoenicurus* | Tingoch | | | ✓ |
| *Phylloscopus sibilatrix* | Telor yr Helyg | ✓ | ✓ | |
| *Picus viridus* | Cnocell Werdd | | | ✓ |
| *Prunella modularis subsp. occidentalis* | Llwyd y Gwrych | ✓ | ✓ | |
| *Pyrrhula pyrrhula subs. pileata* | Coch y Berllan | ✓ | ✓ | |
| *Turdus philomelos subs. clarkei* | Bronfraith | ✓ | ✓ | |
| **Ymlusgiaid / Amffibiaid** | | | | |
| *Anguis fragilis* | Neidr Ddefaid | ✓ | ✓ | |
| **Anifeiliaid Di-asgwrn-cefn** | | | | |
| *Boloria euphrosyne* | Brith Perlog | ✓ | ✓ | |
| *Boloria selene* | Brith Perlog Bach | ✓ | ✓ | |

**Reviewed: January 2014**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Thecla betulae* | Eilir Rhesog Brown | ✓ | ✓ | |
| **Planhigion Fascwlar** | | | | |
| *Hymenophyllum tunbrigense* | Rhedynach TeneuweTunbridge | | | ✓ |
| *Hymenophyllum wilsonii* | Rhedynach Teneuwe Wilson | | | ✓ |
| *Melittis melissophyllum* | Y Wenynog | ✓ | ✓ | |
| **Planhigion Isel** | | | | |
| *Anaptychia ciliaris subsp. ciliaris* | Cen | ✓ | ✓ | |
| *Bacidia incompta* | Cen | ✓ | ✓ | |
| *Lobaria Community* | Llysiau'r Ysgyfaint | | ✓ | ✓ |
| *Megalospora tuberculosa* | Cen | ✓ | ✓ | |
| *Physcia tribacioides* | Ffyscia Llwyd y De | ✓ | ✓ | |
| *Wadeana dendrographa* | Cen | ✓ | ✓ | |
| *Leptodon smithii* | Tair Pluen Tywysog Cymru Mwsogl | | ✓ | |
| *Rhytidiadelphus subpinnatus* | Mwsogl Blewog Prin | ✓ | ✓ | |

# Amcanion y Cynllun

Mewn amryw o achosion nid yw maint na chyflwr y cynefinoedd yn wybyddus, neu bydd yr hyn sydd angen ei wneud ymhell y tu hwnt i oes y cynllun hwn. Mewn achosion o'r fath, nid yw'n bosibl gosod targedau rhifol, felly fe'u mynegir yma fel amcanion. Lle y gellir gosod targedau rhifol, cânt eu nodi. Mae ffocws y cynllun hwn ar ddarparu cynefinoedd o ansawdd uchel mewn tirlun cysylltiedig da a fydd yn darparu cyfloed addas ar gyfer rhywogaethau cysylltiedig . Gall mesurau cadwraeth penodol fod yn addas mewn rhai enghreifftiau a gellir eu hychwanegu isod fel gweithrediadau unigol.

| Cyf | Amcan | Dyddiad Cwblhau | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| W01 | Cynnal maint y coetir llydanddail lled-naturiol yn Sir Benfro - 6600 ha (Cynefinoedd Blaenoriaethol Cymru, 2003). | Oes y cynllun hwn - 2019 | Nid oes amcan colledion *net*. |
| W02 | Dim coetir lled naturiol hynafol wedi ei golli yn Sir Benfro (4,616 ha) | Oes y cynllun hwn - 2019 | Ffigyrau fel y'i mapiwyd yn y Stocrestr Coetir Hynafol. |
| W03 | Lle mae'n bosibl, ceisio adfer Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS) yn Goetir Brodorol Lleihau'r gyfran o gonwydd mewn planhigfeydd er mwyn mwyafu cyfraniad y safleoedd hyn i'r adnodd coetir hynafol. | Cyfredol | Blaenoriaeth a nodwyd gan y Grŵp Ecosystem Coetir Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| W04 | Difa Llawryf a Rhododendron yng nghoetiroedd Sir Benfro lle mae hynny'n ymarferol. | Cyfredol | Gweler Cynllun Gweithredu Rhywogaethau Estron Ymosodol<br><br>Cyfeirio at: Glirio Rhododendron: Argymhellion er mwyn lleihau'r effaith ar y dyfrgi (Lyles, 2006) |
| W05 | Annog datblygu byffrau mwy rhwng coetiroedd a tharddleoedd llygredd er mwyn lleihau effaith llygredd ar y cynefin blaenoriaethol (mae rheoli ffynhonnell y llygredd y tu hwnt i gwmpas y cynllun | Cyfredol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hwn). | | |
| W06 | Annog datblygu byffrau mwy rhwng coetiroedd  a safleoedd datblygu er mwyn lleihau effaith y datblygiadau hynny ar y cynefin blaenoriaethol (mae rheoli'r datblygiad y tu hwnt i gwmpas y cynllun hwn). | Cyfredol | |
| W07 | Gwella cryfder cynefinoedd coetiroedd yn erbyn bygythiadau megis newid hinsawdd drwy gynyddu'r maes cysylltedd ac ymarferol. **Targed: un lleoliad bob blwyddyn i'w blannu i'r diben hwn.** | Adroddiad blynyddol | |
| W08 | Gwella gwytnwch rhag clefydau ymhlith coetiroedd Sir Benfro drwy gynnal amrywiaeth rhwng ac o fewn i rywogaethau.  Nid yw stoc a gaiff eu plannu yn lleol i Sir Benfro (weithiau nid ydynt yn tarddu o Brydain hyd yn oed) a gallant fod yn tarddu o gyfanswm genynnol cul.  Dylid annog adfywiad naturiol a phlannu had coed Sir Benfro a gasglwyd yn lleol lle mae hynny'n bosibl, yn hytrach na phlannu stoc o blanhigfa. **Targed 25Ha adfywiad naturiol.** | 2033 | |
| W09 | Annog sefydlu a datblygu coed hynafol neu goed hynafol y dyfodol drwy'r sir mewn mannau na fyddai'n peryglu cynefinoedd blaenoriaethol eraill a lle mae digon o le i ganiatáu hynny. | Cyfredol | |
| W10 | Dynodi safleoedd coetir / parcdir allweddol yn Sir Benfro drwy arolygon cen a chreaduriaid di-asgwrn-cefn a chynhyrchu stocrestr. Targedu safleoedd sydd ar hyn o bryd yn rhan o'r cynllun  Tir Gofal a allai gael eu peryglu pan ddaw'r cynllun i ben. | 2020 | |
| W11 | Cynyddu ymwybyddiaeth o effeithiau ymddygiad dynol (megis casglu coed tân, casglu porthiant, mynd â'r ci am dro, cadw cathod yn agos i gynefinoedd pathewod ac ati) ar y cynefinoedd blaenoriaethol hyn. | Cyfredol | |

**Reviewed: January 2014**

# Gweithrediad

| Cod | Gweithred | Adrodd Erbyn | Rôl Arweiniol | Gwelliant / Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|---|
| POLG1.01 | Sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau o fewn i Gynlluniau Datblygu Lleol Cyngor Sir Benfro a'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys bioamrywiaeth y tu allan i safleoedd dynodedig. | | PBP | Rhoi sylw i amcanion W01, W02, W05 & W06. Cynhwysir yn y Cynllun Gweithredu Rhywogaethol Polisi a Deddfwriaeth. |
| POLG1.03 | Drwy weithrediad Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth Sir Benfro, sicrheir bod pob cais cynllunio yn cael ei asesu am effeithiau posibl ar adnoddau bioamrywiaeth. Sicrheir bod ceisiadau cynllunio sy'n effeithio Cynefinoedd a Rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Sir Benfro yn cael sylw ac yn cynnwys arolygiadau ecolegol llawn sy'n cael ystyriaeth briodol a mesurau lliniaru sy'n rhoi sylw sylweddol i effeithiau negyddol posibl | | PBP | Rhoi sylw i amcanion W01, W02, W05 & W06. Cynhwysir yn y Cynllun Gweithredu Rhywogaethol Polisi a Deddfwriaeth. |
| W01.1 | | | | |
| W02.1 | | | | |
| W03.1 | PAWS Adfer yng Nghoed Mynwar | | CNC | |
| W03.2 | PAWS Adfer yng Nghoed Canaston | | CNC | |
| W04.1 | | | | |
| W05.1 | | | | |
| W06.1 | | | | |
| W07.1 | | | | |
| W08.1 | 25Ha adfer naturiol yng Nghoed Penlan | 2033 | PCNPA | |
| W09.1 | Arolygu coed hynafol yn Sir Benfro yn ôl sgwariau 1Km | 2015 | PBP | |

**Reviewed: January 2014**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| W10.1 | | | | |
| W11.1 | Cynhyrchu deunydd hyrwyddo i'w ddefnyddio gan bartneriaid mewn coedwigoedd agored i'r cyhoedd – 'Peidiwch mynd â choed meirw'. | 2015 | PCNPA | |
| W11.2 | Cynhyrchu deunydd hyrwyddo i'w ddefnyddio gan bartneriaid mewn coedwigoedd agored i'r cyhoedd – – 'Cŵn a *Phytophthora*' | 2015 | PCNPA | |